

## Datgelu data drwy fetrigau effaith

### Mesurau perfformiad creiddiol

Mae Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi ar gyfer effaith. Rydym yn mesur effaith greiddiol ein buddsoddiadau drwy gyfanswm buddsoddiadau uniongyrchol, cymorth gan y sector preifat a chreu a diogelu swyddi. Mae'r tabl isod yn egluro'r fethodoleg amlinellol a ddefnyddiwyd ar gyfer y mesurau hyn, ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddata a ddarparwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2022/27 Banc Datblygu Cymru.

<b>Crynodeb o'r metrig effaith</b>	<b>Cyfrifo'r metrig</b>
<b>Buddsoddiad uniongyrchol</b>	Cyfanswm y cyllid a fuddsoddiwyd yn uniongyrchol gan y Banc Datblygu o ystod o gynnyrch ei gronfa fusnes.
<b>Cyd-fuddsoddiad y sector preifat</b>	Swm gros y buddsoddiad a'r cyfraniad anariannol gan y sector preifat, sefydliadau masnachol, elusennol ac nid-er-elw ac unigolion preifat.
<b>Swyddi a gefnogwyd</b>	<p>Swyddi a gefnogwyd yw'r cyfuniad o swyddi a ddiogelwyd a swyddi a grëwyd yn y busnesau rydym yn buddsoddi ynddynt.</p> <p>Swyddi a ddiogelwyd – Nifer y swyddi parhaol, cyflogedig, cyfwerth ag amser llawn y mae'r ymgeisydd o'r farn bod perygl iddynt gael eu colli o fewn cyfnod o flwyddyn os na fydd yr ymgeisydd yn gallu sicrhau'r buddsoddiad y gofynnir amdano.</p> <p>Swyddi a grëwyd - Swydd newydd y disgwylir iddi gael ei chreu ac a fydd yn para am o leiaf 12 mis o ganlyniad i'r buddsoddiad.</p> <p>Ar gyfer buddsoddiadau a ariennir â chyllid ERDF, adroddir am swyddi a grëwyd flwyddyn ar ôl y buddsoddiad ac yn flynyddol ar ôl hynny.</p> <p>Ar gyfer Cronfa Benthyciadau Busnes Cymru Covid ystyriwyd yr holl swyddi a ddiogelwyd, pa un a oeddent wedi'u diogelu o'r blaen o gynllun arall gan Fanc Datblygu Cymru ai peidio, oherwydd natur frys unigryw y cyllid.</p>
<b>Busnesau a gefnogwyd</b>	Cofnodir busnes newydd a gefnogwyd pan fydd busnes yn derbyn ei fuddsoddiad cyntaf gan bob Cronfa unigol o fewn ystod o gynnyrch y Banc Datblygu.
<b>Busnesau newydd</b>	Busnesau â llai na dwy flynedd o fasnachu, neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny.

<b>Cyllid micro</b>	Benthycia £50k neu lai.
<b>Cyfalaf tymor estynedig</b>	Benthyciadau a buddsoddiad ecwiti â thelerau sy'n fwy na 5 mlynedd.
<b>Buddsoddiad mewn eiddo</b>	Buddsoddiad o gronfeydd eiddo pwrpasol Banc Datblygu Cymru – Cronfa Datblygu Eiddo Cymru, Cronfa Safleoedd Segur Cymru, Cronfa Eiddo Masnachol Cymru.
<b>Cronfeydd dan reolaeth</b>	Cyfanswm y cronfeydd buddsoddi byw a'r holl gronfeydd sydd dan reolaeth portffolio ar hyn o bryd.
<b>Cyfanswm yr effaith</b>	Yn cynnwys buddsoddiad uniongyrchol, cyd-fuddsoddiad gan y sector preifat a buddsoddiad a wnaethpwyd drwy wasanaethau buddsoddi, gan gynnwys Cymorth i Brynu - Cymru.

## Casglu data am yr effaith ehangach

Yn 2019 fe wnaethom ddatblygu a gweithredu fframwaith effaith diwygiedig, gan ehangu ein mecanweithiau ar gyfer gwerthuso a mesur effaith, yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Meysydd Gweithredu yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad effaith cyntaf yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2019/20 ond mae datblygu ein model i fesur a rheoli effaith yn brosiect hirdymor yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu a mireinio mwy arno yn y blynyddoedd sydd i ddod. Er mwyn sicrhau tryloywder ein heffaith, mae'r canlynol yn cyhoeddi trosolwg o'r sampl a ddefnyddiwyd a'r fethodoleg ar gyfer coladu ac adrodd am bob metrig.

## Methodoleg coladu data effaith ehangach

Er mwyn adrodd am yr effaith a gyflawnir gan fusnesau sy'n derbyn cyllid gan Fanc Datblygu Cymru, gofynnir i gwsmeriaid lenwi holiadur effaith. Rhaid i bob cwsmer y tu allan i'n portffolio datblygu eiddo yng Nghymru sy'n derbyn buddsoddiad newydd lenwi'r holiadur effaith hwn. Yna anfonir holiaduron effaith at gwsmeriaid flwyddyn ar ôl eu buddsoddiad a phob 12 i 24 mis ar ôl hynny. Mae'r data a gyflwynir yn sampl o'r flwyddyn gyfredol. Nid yw'n ddadansoddiad hydredol ac ni ellir ei gymharu'n uniongyrchol â'r blynyddoedd blaenorol gan fod y busnesau sy'n rhan o'r sampl yn newid.

Rydym yn dibynnu ar hunan-adroddiadau ar gyfer nifer o fesurau. Golyga hyn y gall rhai o'n setiau data fod yn anghyflawn neu y gallent gynnwys camgymeriadau. O ganlyniad, cymerir sampl bob blwyddyn yn seiliedig ar ansawdd data. Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, mae'r sampl yn cynnwys 330 o fusnesau.

Caiff data ar gyfer pob metrig eu coladu a'u storio yn erbyn gwybodaeth am y buddsoddiad. Mae hyn yn caniatáu i ni ddadansoddi'r data a phob metrig yn ôl dyddiad, lleoliad, sector, math o fuddsoddiad a swm. Caiff data amrywiaeth a chydardoldeb, oherwydd eu natur, eu coladu a'u hadrodd ar wahân er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn dilyn canllawiau gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Er mwyn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y mae Banc Datblygu Cymru yn defnyddio gwybodaeth bersonol darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd neu cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data drwy anfon ebost i [dpo@developmentbank.wales](mailto:dpo@developmentbank.wales).

## Methodolegau metrig dyfodol ffyniannus

Crynodeb o'r metrig effaith	Cyfrifo'r metrig
<b>Cynnydd ym maint busnesau</b>	Rydym yn olrhain lefelau Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) ar gyfer busnesau yn y sampl bob tro y dychwelir ffurflen effaith buddsoddiad ac yn eu categorio ar sail Micro (0-9 CALI), Bach (10-49 CALI) a Chanolig (50-250 CALI). Mae newid ym maint busnes yn digwydd pan fydd lefelau CALI busnesau yn symud o un categori i un arall.
<b>Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (CALI) yn y dosbarthiadau cyflog canolrifol i uchel.</b>	<p>Caiff niferoedd CALI eu hadrodd gan y cwsmer mewn bandiau cyflog o lai na £14,999; £15,000-£19,999; £20,000-£24,999; £25,000-£34,999; £35,000+. Pennir y bandiau cyflog hyn fel rhan o'n gofynion adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth gyflawni Cronfa Fusnes Cymru.</p> <p>Cyfrifir cyflog Isel a chyflog Canolrifol i isel drwy ddefnyddio <a href="#">proffil NOMIS</a> y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru ar gyfer cyflog wythnosol gros gweithwyr amser llawn a gafwyd o ddata <a href="#">enillion wythnosol canolrifol</a> y Swyddfa Ystadegau Gwladol a diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Gyflog Isel (dwy ran o dair o'r cyflog canolrifol). Mae cyflog canolrifol Cymru a nodir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn uwch na'r ffigur amodol a nodwyd yng nghyhoeddiad <a href="#">StatsCymru</a> yn 2021.</p> <p>Er mwyn cymharu, mae <a href="#">ystadegau StatsCymru</a> yn adrodd am nifer y gweithwyr CALI sy'n ennill mwy na dwy ran o dair o'r cyflog canolrifol, sy'n cael ei ddefnyddio gennym ni fel dosbarthiadau cyflog canolrifol i uchel oherwydd ein cyfrifiad o CALI.</p>
<b>Cynnydd mewn cynhyrchiant a throsiant cyfartalog fesul CALI</b>	Mae hwn yn ddull elfennol iawn o ddangos cynhyrchiant ond yn un y gellir ei wneud heb ofyn am lawer iawn o ddata ychwanegol gan ein cwsmeriaid. Mae ein cwsmeriaid yn adrodd am y newidiadau yng nghyfanswm y gweithwyr CALI yn eu busnes a'u ffigur trosiant archwiliedig diweddaraf. Caiff trosiant

ei rannu gan y sefyllfa CALL ar gyfer pob cwmni i roi trosiant fesul nifer y gweithwyr CALL. Canfyddir cyfartaledd y rhain wedyn er mwyn cymedroli allanolynnau. Gwneir hyn ar gyfer ffurflenni pob blwyddyn â data gweithwyr CALL a throsiant.

Er mwyn canfod y cynnydd mewn cynhyrchiant, rydym yn edrych ar y newid o'r naill flwyddyn i'r llall rhwng y trosiant cyfartalog fesul gweithiwr.

Defnyddir [Amcangyfrifon Poblogaeth Busnes](#) y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel y cymharydd ar gyfer cyflogaeth a throsiant BBaCh bob blwyddyn er gwaethaf amcangyfrifon yn cynnwys gweithiwr fel 1 uned yn hytrach na defnyddio cyfrifiad CALL.

**Cyfran yr ymatebwyr sy'n allforio a chyfanswm gwerth allforion.**

Nodir allforwyr wrth i'r cwsmer adrodd am gyfran y trosiant yr adroddir amdano y gellir ei phriodoli i werthiant allforio.

## Methodolegau metrig arloesi a thechnoleg

### Crynodeb o'r metrig effaith

**Cyfran o'r cwsmeriaid sy'n arloesi yn eu busnes.**

### Cyfrifo'r metrig

Mae cwsmeriaid yn adrodd am nifer y gweithgareddau arloesi yn ystod y 12 mis blaenorol. Diffinnir gweithgaredd arloesi fel prosiectau Ymchwil a Datblygu Cydweithredol; Patentau a gofrestrwyd; Nifer y cynnyrch a gynhyrchwyd sy'n newydd i'r busnes; Nifer y cynnyrch a gyflwynwyd sy'n newydd i'w marchnad; a Gwelliannau arwyddocaol.

Mae'r gweithgareddau arloesi hyn yn ddangosyddion gwerth ychwanegol wedi'u diffinio gan ac yn cael eu hadrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth weithredu Cronfa Fusnes Cymru.

Cyfrifir cyfran y gweithgaredd o gyfanswm y gweithgareddau.

**Cyfran o'r cwsmeriaid sy'n digido eu busnes.**

Mae cwsmeriaid yn adrodd os ydynt wedi defnyddio'r technolegau a diffiniwyd i ddigido eu busnesau yn y 12 mis blaenorol. Codwyd y technolegau a ddiffinnir o'r [State of Small Business Britain Report](#) ac maent yn cynnwys Gosod mesurydd clyfar; Systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM); E-fasnach; Meddalwedd cyfrifo ar y we; Meddalwedd cynllunio â chymorth cyfrifiadur; Awtomeiddio prosesau; Cyfrifiaduro Cwmwl; Dysgu peirianyddol; a Deallusrwydd artiffisial.

Cyfrifir cyfran y gweithgaredd o gyfanswm y gweithgareddau.

## Methodolegau metrig cymunedau a lleoedd

Ar adeg y buddsoddiad cychwynnol, a dim ond ar adeg y buddsoddiad, bydd cwsmeriaid yn cwblhau adran Amrywiaeth a Chydraddoldeb yr holiadur effaith. Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd am nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr sy'n uniaethu â nodweddion demograffig penodol.

Mae adroddiadau effaith yn 2019/20 a 2020/21 wedi rhagdybio mai cyfanswm y perchnogion/cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr a nodwyd drwy ymatebion i ran gyntaf yr holiadur oedd gwir gyfanswm y perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr. O ganlyniad, roedd cyfrannau'r perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr eraill yn seiliedig ar y cyfanswm a nodwyd yn yr adran gyntaf honno. Nid oedd hyn yn ystyried newidiadau mewn cyfraddau cwblhau ar gyfer rhannau eraill yr holiadur.

Mae ein methodoleg wedi newid i adrodd dim ond am ganlyniadau ym mhob rhan o'r holiadur. Er enghraifft, cyfrifir cyfran y perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yr adroddir amdanynt fel rhai Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig dim ond drwy gyfanswm y perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr y mae gennym ddata ethnigrwydd ar eu cyfer.

<b>Crynodeb o'r metrig effaith</b>	<b>Cyfrifo'r metrig</b>
<b>Cyfran y perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata rhywedd, a oedd yn ystyried eu hunain yn Fenywod.</b>	Mae'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon yn dilyn y canllawiau a roddwyd fel rhan o ofynion adrodd am Gronfa Fusnes Cymru.
<b>Cyfran y perchnogion / cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata ethnigrwydd, a oedd yn ystyried eu hunain yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig.</b>	Mae grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys pobl a allai wynebu rhwystrau oherwydd eu tarddiad ethnig, wrth geisio manteisio ar gyfleoedd yng Nghymru. Nid yw cwestiynau tarddiad ethnig yn ymwneud â chenedligrwydd, man geni neu ddinasyddiaeth. Maent yn ymwneud â grwpiau ethnig eang.
<b>Cyfran y perchnogion/ cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata anabledd, a oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd hirdymor.</b>	Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod bod pobl anabl yn bobl ag amhariad sy'n cael eu gwneud yn anabl gan rwystrau (agweddol, amgylcheddol a sefydliadol) sy'n eu hatal rhag cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd. Yn syml iawn, nid ei anallu i gerdded sy'n atal person rhag mynd i mewn i adeilad heb gymorth ond bodolaeth grisiau na all defnyddiwr cadair olwyn eu defnyddio. Mewn geiriau eraill, amhariad cymdeithasol yw 'anabledd'. Mae'r Model Cymdeithasol o

Anabledd yn gofyn i gymdeithas chwalu'r rhwystrau er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb. Caiff y Model hwn ei gydnabod gan bobl anabl a chafodd ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org)

**Cyfran y perchnogion / cyfarwyddwyr/ cyfranddalwyr yn y busnesau a gefnogwyd gennym, a ddarparodd ddata oedran, sydd dan 25 oed.**

Mae'r adran hon yn gofyn i gwsmeriaid adrodd am nifer y perchnogion/cyfarwyddwyr/cyfranddalwyr sydd o fewn dosbarthiadau oedran penodol.

Y dosbarthiadau oedran penodol yw 0-24 oed, 25-44 oed, 45-64 oed, 65-74 oed a 75+ oed.